# Cylchlythyr Ysgol Glan Ceubal

10/10/2025

Annwyl Deuluoedd Ysgol Glan Ceubal,

Wrth i ni ddod at ddiwedd wythnos fywiog arall yn Ysgol Glan Ceubal, hoffem ddiolch o galon i chi am eich cefnogaeth barhaus a'ch cyfranogiad gwych. Mae wedi bod yn wythnos llawn egni, dysgu, ac atgofion arbennig – ac rydym wrth ein bodd yn rhannu rhai uchafbwyntiau gyda chi!

## Cerddorfa Glantaf

Cafodd rhai o'n disgyblion gyfle gwych i berfformio yng Ngherddorfa Glantaf ddydd Mercher, ac roedd y perfformiad terfynol yn syfrdanol! Da iawn bawb – roedd eich egni a'ch angerdd yn ysbrydoledig. Diolch o galon hefyd i'r rhieni a'r llywodraethwyr a ddaeth i gefnogi'r digwyddiad arbennig hwn.

## Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd

Diolch enfawr i bawb a wisgodd felyn ddydd Gwener i ddangos eu cefnogaeth i Ddiwrnod Iechyd Meddwl y Byd. Roedd yr ysgol yn edrych yn heulog iawn! Gallwch ddysgu mwy am yr elusen Mind yma: www.mind.org.uk

## Yr Argyfwng Costau Byw

Rydym yn ymwybodol bod yr argyfwng costau byw yn effeithio ar lawer o deuluoedd, ac rydym am eich sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gynllunio gweithgareddau sy'n cynnig profiadau cyfoethog heb roi pwysau ychwanegol ar gostau. Os hoffech siarad gyda ni'n gyfrinachol am unrhyw bryderon ariannol neu gymorth posibl, cysylltwch â ni ar ysgolglanceubal@cardiff.gov.uk neu ffoniwch 02920 626650 – rydym yma i helpu.

## Dyddiadau Pwysig

- Hydref 14: Cystadleuaeth Cogurdd / Poburdd – rownd gyntaf!

- Hydref 15: Jambori Blwyddyn 2 a 3 (mwy o fanylion ar Class Dojo)

- Hydref 15: Diwrnod Shwmae – dathlu'r Gymraeg gyda'n Criw Cymraeg!

- Hydref 20: Taith Breswyl Blwyddyn 6 i Langrannog (dim ymarfer côr yr wythnos hon)

- Hydref 21: Dydd Dangos a Dathlu – Blwyddyn 1 a 2 (mwy o fanylion ar Dojo)

- Hydref 23: Dydd Dangos a Dathlu – Meithrin a Derbyn (mwy ar Dojo)

- Hydref 23: Twrnament Pêl-droed yr Urdd – Blwyddyn 3 a 4 (merched a bechgyn)

- Hydref 24 – Tachwedd 3: Gwyliau Hanner Tymor

- Tachwedd 3 – Tachwedd 7: Nosweithiau Rhieni

## 📊 Presenoldeb

Rydym wrth ein bodd i rannu bod ein presenoldeb wythnosol ar 95%! Ardderchog pawb – daliwch ati!

Cofiwch ein dilyn ar | ClassDojo | Instagram: @ysgolglanceubal

Unwaith eto, diolch am fod yn rhan o'n cymuned wych.

Yn gywir,
Siân Eleri Fudge

# Glan Ceubal School Newsletter

10/10/2025

Dear Glan Ceubal Families,

As another lively week comes to a close, we'd like to say a huge thank you for your continued support and enthusiasm. It's been a week full of creativity, learning, and laughter — and we're excited to share some of the highlights with you!

## Glantaf Orchestra

Some of our pupils had the amazing opportunity to take part in the Glantaf Orchestra on Wednesday — and what a fantastic performance it was! Huge congratulations to everyone involved across the Cluster schools. A heartfelt thank you as well to all the parents and governors who came along to support.

## World Mental Health Day

A big thank you to everyone who wore yellow on Friday to mark World Mental Health Day! The school was a sea of sunshine and positivity. To find out more about Mind and the work they do, please visit www.mind.org.uk.

## Cost of Living Support

We know the ongoing cost of living crisis continues to affect many families. Please rest assured that we carefully consider costs when planning school trips and activities — like our upcoming Year 6 trip to Llangrannog — to make sure every child can take part in enriching experiences. If you'd like to chat with us confidentially about financial support or concerns, please email ysgolglanceubal@cardiff.gov.uk or call 02920 626650. We're here to help.

## Important Dates

- October 14: Poburdd / Cogurdd Competition – Round 1

- October 15: Year 2 & 3 Jamboree (see ClassDojo for details)

- October 15: Shwmae Day – celebrating the Welsh language!

- October 20: Year 6 Residential to Llangrannog (no choir practice this week)

- October 21: Come, Show and Celebrate – Year 1 & 2 (more on ClassDojo)

- October 23: Come, Show and Celebrate – Reception & Nursery (more on ClassDojo)

- October 23: Urdd Football Tournament – Years 3 & 4 (mixed teams)

- October 24 – November 3: Half-term Holidays

- November 3 – 7: Parents' Evenings

## Attendance

We're thrilled to share that our attendance this week is 95%! Fantastic effort, everyone – keep it up!

Stay connected with us | ClassDojo | Instagram: @ysgolglanceubal

Thank you once again for being such a wonderful part of our Glan Ceubal community.

Warm regards,
Siân Eleri Fudge